# Civil Engineering Contractors Association (CECA) Wales

## Key Asks for 2021 Senedd Election

ceca
Working for Infrastructure
Adeiladwaith yw'n Gwaith

As the representative body of 60 of Wales' largest and smallest civil engineering contracting businesses, the Civil Engineering Contractors Association (CECA) Wales' vision is for a strong, resilient and growing Welsh infrastructure sector that is able to contribute towards Wales' future needs in terms of infrastructure, economic growth, social value and reducing emissions. However, there are significant challenges for the civil engineering sector in Wales and these need to be addressed by any incoming Welsh Government if we are to "build a better Wales".

We support and align ourselves with key asks in the manifesto of the Wales Construction Federation Alliance but set out below the specific CECA Wales challenges and asks from a future Welsh Government.

## Challenges

- There is no **clear vision of the future for the infrastructure** sector in Wales.
- Much more needs to be done to **improve the prospects for the SME's** that deliver the bulk of infrastructure works in Wales and represent a cornerstone of our foundation economy.
- Engagement between Welsh Government and the construction sector has recently been improved through the **Welsh Ministerial Construction Forum,** but this needs to demonstrate that it can **deliver improvement "on the ground"** with public and private sector needs better aligned.
- **Workflow and cashflow** remain the lifeblood of businesses in this sector. However, visibility and certainty of future workflow remains patchy across the public sector. This has been compounded by a series of high profile infrastructure project cancellations across Wales which further creates uncertainty for businesses and makes them less likely to innovate and invest in longer term improvements and/or employment.
- In the short term, the **Wales Infrastructure Investment Plan (WIIP)** is little more than a wish list without certainty of funding or realistic timelines and, in terms of longer term direction and planning, the National Infrastructure Commission for Wales (NICfW) has made little progress to date.
- The **Covid-19** crisis has brought some of the frailties of the sector into sharp focus, particularly amongst micro and small businesses and in apprenticeships. Businesses in the sector will be vulnerable to insolvencies in 2021 unless small firms are able to maintain their cashflow and have clarity on future workflow.
- The prospect of a **no deal Brexit** will also have an impact on the sector in Wales (although likely less of an impact than in SE England). We need to see any incoming Welsh Government continue to work with the UK Government on migration issues in the labour market and the availability and costs of materials and machinery.

- Recent reviews and announcements have provided solid ambitions but do not provide the **certainty or visibility** needed by industry in some policy areas e.g. the affordable housing and retrofit reviews. In other policy areas e.g. procurement, payment and community benefits, good policies are in place, but they are not being monitored or enforced by Welsh Government and consequently are not delivering the full extent of benefits anticipated.
- Some parts of the public sector still over emphasise **lowest price rather than highest value** in their procurement processes when they are creating tenders and assessing bids. Procurement can also be unwieldy and bureaucratic. Both these long standing issues continue to disproportionately impact SME's.
- There are **skills gaps** in traditional trades, management roles and future skills but the curriculum (and education funding) remains focused on academic attainment, often at the expense of vocational education. There are too many qualifications but a lack of progression routes e.g. to higher / degree apprenticeships. Learners are far too often unaware of the roles and opportunities that are available in construction. The positioning and marketing of the industry as a rewarding career is not appropriately reflected within the education sector. This is particularly evident amongst under-represented groups and high achievers.
- Government ministers and planners, must recognise **the importance of minerals**. Far too often major infrastructure projects are promoted without any thought of the availability and location of minerals which influences vehicle movements and carbon impacts. Material supplies should not be assumed – they need to be planned if cost effective and sustainable delivery solutions are to be achieved.
- **Poor payment practices** are still common in the construction industry and these continue to have a major impact on the industry's ability to invest, to grow and to deliver greater value. These poor practices disproportionately affect SMEs. An extreme example of the implications of poor payment practices came with the collapse of Welsh registered Dawnus in 2019 left £40million owing to SME's. Given the current pandemic this is proving that cashflow for SME's should be a priority for any new government.
- And finally, ongoing uncertainties on government proposals to **decarbonise our infrastructure** are impacting business confidence to invest. Clarity will help to unlock new opportunities.

# Key Asks

**We have based our key asks of any future Welsh Government on the following priorities:**

| Priority | Portfolio | Key Asks |
|---|---|---|
| **Pipeline** | Economy | • Set a clear 10 year vision for construction in Wales including targets<br>• Reform and clarify the National Infrastructure Commission for Wales (NICfW)<br>• Support improved engagement between public and private sector so that messages are clear and coherent<br>• Embed, improve and better resource the newly formed Welsh Construction Forum<br>• Increase investment in public sector infrastructure.<br>• Commit to all public sector bodies publishing their short term (12-24 month) infrastructure plans on a public platform<br>• Incorporate the medium term investment plans of all public sector bodies into an improved WIIP to offer a 3-5 year programme of work, funding proposals & certainty |
| **People and Skills** | Economy / Education | • Ensure the curriculum / careers advice signpost vocational education & construction careers<br>• Increase funding for construction vocational education.<br>• Ensure implementation of the new construction qualifications is a success and use social value clauses and initiatives to encourage businesses into schools and colleges to help deliver the curriculum (including Welsh Bacc)<br>• Increase the range of pathways for learners in Wales, including higher and degree apprenticeships<br>• Develop and support a clear approach to shared apprenticeships.<br>• Support existing apprentices to complete their training & minimise falling apprentice numbers post-COVID |
| **Procurement** | Finance | • Review the Cross-Party Construction Group report on procurement and reapply via an updated and refreshed Welsh Procurement Policy<br>• Focus on value not cost across public sector investment and incorporate carbon impacts as part of whole life project cost assessments |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Establish a public sector support function/agency, based on existing agencies, to support the private sector in delivering social value eg access to schools and colleges, employment agencies, community initiatives, Third sector, etc<br>• Create a clear and accountable function within government to ensure that public procurement policy is fully monitored, audited and enforced (e.g. grant funds recovered if policy not applied) |
| **Payment** | Finance | • Ensure fair payment across supply chains as per government policy and report performance on public sector contracts.<br>• Ensure retention monies are held in an independently operated deposit scheme to safeguard SME funds,<br>• Monitor the application / impact of Project Bank Accounts on construction contracts above the government financial thresholds.<br>• Create a clear and accountable function within government to ensure that WG fair payment policy is fully monitored, audited and enforced (e.g. further work dependent on application of fair payment practices) |
| **Planning** | Housing | • Ensure planning departments are properly resourced.<br>• Undertake an urgent review of how Sustainable Urban Drainage Assessment Boards are performing<br>• Review the planning system to ensure it encourages and is proportionate to SME developers. |
| **Decarbonise (Net Zero)** | Environment | • Increase investment in decarbonising existing infrastructure.<br>• Support the sector in decarbonising construction operations using current Net Zero research.<br>• Develop a clear strategy for creating a circular economy to support the infrastructure sector<br>• Introduce whole life costing criteria, including embedded carbon, into the justification of all infrastructure investment |

# Better outcomes

**We will work with the next Welsh Government to deliver for the sector and believe that by supporting these key asks the Welsh civil engineering sector will be better able to contribute towards Wales' future needs by:**

- delivering better infrastructure for the $21^{st}$ Century
- supporting economic growth through jobs and supply chains
- delivering greater social value
- reducing emissions to support the move towards zero carbon
- reducing fuel poverty
- supporting the foundation economy
- supporting circular economies
- delivering greater value for money and reducing impacts on public expenditure

# Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil (CECA) Cymru

## Gofynion ar gyfer Etholiad Senedd 2021

www.ceca.wales
@ceca_wales

Fel corff sy’n cynrychioli 60 o fusnesau contractwyr peirianneg sifil fwyaf a lleiaf Cymru, gweledigaeth Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil Cymru (CECA) yw i gael sector seilwaith Cymreig cryf, gwydn sy’n ffynnu ac sy’n gallu cyfrannu tuag at anghenion Cymru yn y dyfodol o ran seilwaith, twf economaidd, gwerth cymdeithasol a lleihau allyriadau . Fodd bynnag, mae yna heriau sylweddol i'r sector peirianneg sifil yng Nghymru ac mae angen i unrhyw Lywodraeth Cymru newydd fynd i'r afael â'r rhain os ydym am “adeiladu Cymru well”.

Rydym yn cefnogi’r gofynion allweddol ym maniffesto Cynghrair Ffederasiwn Adeiladu Cymru (WCFA) ond yn gosod allan isod yr heriau penodol i CECA Cymru a’n gofynion i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

## Heriau

- **Nid oes gweledigaeth glir o'r dyfodol** i'r sector seilwaith yng Nghymru.
- Mae angen gwneud llawer mwy i **wella'r rhagolygon ar gyfer y busnesau bach a chanolig** sy'n cyflawni'r mwyafrif o waith seilwaith yng Nghymru ac yn gonglfaen i'n heconomi sylfaenol.
- Mae'r ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector adeiladu wedi'i wella'n ddiweddar trwy Fforwm Adeiladu Gweinidogol, ond mae angen i hyn ddangos y gall sicrhau gwelliant “ar lawr gwlad” gydag anghenion y sector cyhoeddus a phreifat yn fwy cyfunion.
- Mae **llif gwaith a llif arian** yn parhau i fod yn anadl einioes busnesau yn y sector hwn. Fodd bynnag, mae gweledead a sicrwydd llif gwaith yn y dyfodol yn parhau i fod yn dameidiog ar draws y sector cyhoeddus. Gwaethygwyd hyn gan gyfres prosiectau seilwaith mawr ledled Cymru yn cael eu canslo, sy'n creu ansicrwydd bellach i fusnesau ac yn eu gwneud yn llai tebygol o arloesi a buddsoddi mewn gwelliannau tymor hir a / neu gyflogaeth.
- Yn y tymor byr, nid yw **Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP)** fawr mwy na rhestr ddymuniadau heb sicrwydd cyllid neu linellau amser realistig ac, o ran cyfeiriad a chynllunio tymor hir, prin yw’r cynnydd mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICfW) wedi’i wneud hyd yn hyn.
- Mae **argyfwng Covid-19** wedi dod tynnu sylw at elfennau bregus y sector, yn enwedig ymhlith busnesau bach a micro ac mewn prentisiaethau. Bydd busnesau yn y sector yn agored i ansolfedd yn 2021 oni bai bod cwmnïau bach yn gallu cynnal eu llif arian a cyn cael eglurder ynghylch llif gwaith yn y dyfodol.
- Bydd y posibilrwydd o **Brexit heb gytundeb** hefyd yn cael effaith ar y sector yng Nghymru (er efallai fydd yn llai o effaith nag ar Dde-ddwyrain Lloegr). Mae angen inni weld unrhyw Lywodraeth Cymru newydd yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar faterion ymfudo yn y farchnad lafur ac argaeledd a chostau deunyddiau a pheiriannau.
- Mae adolygiadau a chyhoeddiadau diweddar wedi darparu uchelgeisiau cadarn ond nid ydynt yn cynnig y **sicrwydd na’r gwelededd** sydd ei angen ar ddiwydiant mewn rhai meysydd polisi e.e. yr adolygiadau tai fforddiadwy ac ôl-osod. Mewn meysydd polisi eraill e.e.

caffael, talu a buddion cymunedol, mae polisïau da ar waith, ond nid ydynt yn cael eu monitro na'u gorfodi gan Lywodraeth Cymru ac o ganlyniad nid ydynt yn cyflawni'r buddion bosib yn eu cyfanrwydd.

- Mae rhai rhannau o'r sector cyhoeddus yn dal i or-bwysleisio'r **pris isaf yn hytrach na'r gwerth uchaf** yn eu prosesau caffael pan fyddant yn creu tendrau ac yn asesu bidiau. Gall caffael hefyd fod yn lletchwith ac yn fiwrocrataidd. Mae'r ddau fater hir sefydlog hyn yn parhau i gael effaith anghymesur ar fusnesau bach a chanolig.
- Mae **bylchau sgiliau** mewn crefftau traddodiadol, swyddi rheoli a sgiliau'r dyfodol ond mae'r cwricwlwm (a chyllid addysg) yn parhau i ganolbwyntio ar gyrhaeddiad academaidd, yn aml ar draul addysg alwedigaethol. Mae gormod o gymwysterau ond diffyg llwybrau dilyniant e.e. i brentisiaethau uwch / gradd. Mae dysgwyr yn llawer rhy aml yn anymwybodol o'r rolau a'r cyfleoedd sydd ar gael ym maes adeiladu. Nid yw marchnata'r diwydiant fel gyrfa werth chweil yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn y sector addysg. Mae hyn yn amlwg iawn ymhlith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a chyflawnwyr uchel.
- Rhaid i weinidogion a chynllunwyr y llywodraeth gydnabod **pwysigrwydd mwynau**. Yn rhy aml o lawer, hyrwyddir prosiectau seilwaith mawr heb feddwl am argaeledd a lleoliad mwynau sy'n dylanwadu ar symudiadau cerbydau ac effeithiau carbon. Ni ddylid cymryd yn ganiataol cyflenwadau deunydd - mae angen cynllunio ar eu cyfer os ydym am sicrhau atebion cyflenwi cost-effeithiol a chynaliadwy.
- Mae **arferion talu gwael** yn dal i fod yn gyffredin yn y diwydiant adeiladu ac mae'r rhain yn parhau i gael effaith fawr ar allu'r diwydiant i fuddsoddi, tyfu a sicrhau mwy o werth. Mae'r arferion gwael hyn yn effeithio'n anghymesur ar fusnesau bach a chanolig. Enghraifft ddifrifol o oblygiadau arferion talu gwael oedd cwymp gwmni Dawnus yn 2019 a adawodd £40miliwn yn ddyledus i fusnesau bach a chanolig. Wrth ystyried y pandemig cyfredol mae hyn yn profi y dylai llif arian ar gyfer busnesau bach a chanolig fod yn flaenoriaeth i unrhyw lywodraeth newydd.
- Ac yn olaf, mae ansicrwydd parhaus ar gynigion y llywodraeth i **ddatgarboneiddio ein seilwaith** yn effeithio ar hyder busnesau i fuddsoddi. Bydd eglurder yn helpu i ddatgloi cyfleoedd newydd.

# Gofynion Allweddol

**Rydym wedi seilio ein gofynion allweddol i unrhyw Lywodraeth Cymru yn y dyfodol ar y blaenoriaethau canlynol:**

| Blaenoriaeth | Portffolio | Gofynion Allweddol |
|---|---|---|
| **Piblinell** | Economi | • Gosod gweledigaeth 10 mlynedd glir ar gyfer adeiladu yng Nghymru gan gynnwys targedau<br>• Diwygio a gloywi Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICfW)<br>• Cefnogi gwell ymgysylltiad rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel bod negeseuon yn glir ac yn gydlynol<br>• Ymwreiddio, gwella a darparu adnoddau gwell i Fforwm Adeiladu Cymru sydd newydd ei ffurfio<br>• Cynyddu buddsoddiad yn seilwaith y sector cyhoeddus.<br>• Ymrwymo i bob corff sector cyhoeddus gyhoeddi eu cynlluniau seilwaith tymor byr (12-24 mis) ar blatfform cyhoeddus<br>• Ymgorffori cynlluniau buddsoddi tymor canolig holl gyrff y sector cyhoeddus mewn WIIP gwell i gynnig rhaglen waith 3-5 mlynedd, cynigion cyllido a sicrwydd |
| **Pobl & Sgiliau** | Economi / Addysg | • Sicrhau bod y cwricwlwm / cyngor gyrfaoedd yn cyfeirio at yrfaoedd addysg alwedigaethol ac adeiladu<br>• Cynyddu cyllid ar gyfer addysg alwedigaethol adeiladu.<br>• Sicrhau bod cyflwyno cymwysterau adeiladu newydd yn llwyddiant a defnyddio cymalau a mentrau gwerth cymdeithasol i annog busnesau i mewn i ysgolion a cholegau i helpu i gyflawni'r cwricwlwm (gan gynnwys Bagloriaeth Cymru)<br>• Cynyddu'r ystod o lwybrau i ddysgwyr yng Nghymru, gan gynnwys prentisiaethau uwch a gradd<br>• Datblygu a chefnogi dull clir o rannu prentisiaethau.<br>• Cefnogi prentisiaid presennol i gwblhau eu hyfforddiant a lleihau gostyngiad yn nifer y prentisiaid ar ôl COVID |
| **Caffael** | Cyllid | • Adolygu adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol ar Adeiladu ar gaffael a'i ailosod trwy ddiweddariad ac adnewyddiad o Bolisi Caffael Cymru<br>• Canolbwyntio ar werth nid cost ar draws buddsoddiad y sector cyhoeddus ac ymgorffori effeithiau carbon fel rhan o asesiadau cost prosiect cyfan |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Sefydlu swyddogaeth / asiantaeth gefnogi'r sector cyhoeddus, yn seiliedig ar asiantaethau presennol, i gefnogi'r sector preifat i ddarparu gwerth cymdeithasol ee mynediad i ysgolion a cholegau, asiantaethau cyflogaeth, mentrau cymunedol, y Trydydd sector ayyb<br>• Creu swyddogaeth glir ac atebol o fewn y llywodraeth i sicrhau bod polisi caffael cyhoeddus yn cael ei fonitro, ei archwilio a'i orfodi'n llawn (e.e. cronfeydd grant yn cael eu hadennill os na weithredir y polisi) |
| **Taliadau** | Cyllid | • Sicrhau taliad teg ar draws cadwyni cyflenwi yn unol â pholisi'r llywodraeth ac adrodd ar berfformiad ar gontractau'r sector cyhoeddus.<br>• Sicrhau fod arian dargadw yn cael ei gadw mewn cynllun blaendal a weithredir yn annibynnol i ddiogelu cronfeydd busnesau bach a chanolig,<br>• Monitro cymhwysiad / effaith Cyfrifon Banc Prosiectau ar gontractau adeiladu uwchlaw trothwyon ariannol y llywodraeth.<br>• Creu swyddogaeth glir ac atebol o fewn y llywodraeth i sicrhau bod polisi talu teg LIC yn cael ei fonitro, ei archwilio a'i orfodi'n llawn (e.e. gwaith pellach yn dibynnu ar ddefnydd o arferion talu teg) |
| **Cynllunio** | Tai | • Sicrhewch fod gan adrannau cynllunio adnoddau priodol.<br>• Cynnal adolygiad brys o berfformiad Byrddau Asesu Draenio Trefol Cynaliadwy<br>• Adolygu'r system gynllunio i sicrhau ei bod yn annog ac yn gymesur â datblygwyr busnesau bach a chanolig. |
| **Datgarboneiddio (Sero-net)** | Amgylchedd | • Cynyddu buddsoddiad yn y gwaith i ddatgarboneiddio seilwaith presennol.<br>• Cefnogi'r sector i ddatgarboneiddio gweithrediadau adeiladu gan ddefnyddio ymchwil Sero-net cyfredol.<br>• Datblygu strategaeth glir ar gyfer creu economi gylchol i gefnogi'r sector seilwaith<br>• Cyflwyno meini prawf cost bywyd cyfan i gyfiawnhad holl fuddsoddiad mewn seilwaith, gan gynnwys carbon corfforedig |

# Canlyniadau gwell

**Credwn, trwy gefnogi'r gofynion allweddol hyn, y bydd sector peirianneg sifil Cymru yn gallu cyfrannu'n well tuag at anghenion Cymru yn y dyfodol trwy:**

- darparu gwell seilwaith ar gyfer yr 21ain Ganrif
- cefnogi twf economaidd trwy swyddi a chadwyni cyflenwi
- sicrhau mwy o werth cymdeithasol
- lleihau allyriadau i gefnogi'r symudiad tuag at Di-garbon
- lleihau tlodi tanwydd
- cefnogi'r economi sylfaen
- cefnogi economïau cylchol
- sicrhau mwy o werth am arian a lleihau effeithiau ar wariant cyhoeddus